Crynodeb o GYFANSODDIAD (2024) Cymdeithas Myfyrwyr Celtaidd (Cymraeg)

Amcanion y Gymdeithas yw hyrwyddo astudio, ymchwilio a dathlu'r ieithoedd Celtaidd, eu hanes, eu llenyddiaeth a'u diwylliannau.

Gall unigolyn cymwys ddod yn aelod o'r Gymdeithas drwy fynychu Cynhadledd Myfyrwyr Celtaidd, neu drwy ohebiaeth ysgrifenedig â'r Pwyllgor. Mae aelodaeth ar gael i unrhyw fyfyriwr cyfredol ar gyrsiau israddedig neu uwchraddedig sy'n cynnwys elfen Geltaidd. Mae aelodaeth hefyd ar gael i raddedigion diweddar cyrsiau o'r fath, hyd at ddwy flynedd ar ôl diwedd cwrs a ddysgir neu ddyddiad cyflwyno terfynol traethawd ymchwil.

Mae gan aelodau'r hawl i fynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac i ethol pobl yn aelodau o'r Tîm Rheoli a'r Pwyllgor. Cyfranna aelodau hefyd at benderfyniadau i newid y Cyfansoddiad.

Aelodau'r Tîm Rheoli yw'r Cadeirydd, yr Ysgrifennydd, ac aelodau'r Tîm Cyllid. Eu gwaith hwy yw cyfarwyddo a goruchwylio gweithgareddau'r Gymdeithas, yn enwedig o safbwynt ariannol.

Etholir y Pwyllgor yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, neu gan y Tîm Rheoli, a chynhelir cyfarfodydd rheolaidd ohono rhwng Cyfarfodydd Cyffredinol. Yn arferol, etholir iddo'r Tîm Rheoli, yn ogystal â swyddogion i'r timau canlynol: Tîm y Gynhadledd, Tîm Trafodion, Tîm Iaith, Tîm y Cyfryngau Cymdeithasol, Tîm Podlediad, Tîm Blog, a Thîm Lles.

Diswyddir aelodau o'r Tîm Rheoli a'r Pwyllgor os ceir hwy yn euog o gamymddwyn personol difrifol, os ydynt yn methu â chyflawni eu dyletswyddau, os ydynt yn peidio â bod yn aelod o'r Gymdeithas, neu os byddant yn absenoli o gyfarfodydd y Gymdeithas heb ymddiheuriadau ysgrifenedig. Gellir rhoi cyfnod o seibiant i aelodau o'r Pwyllgor os gofynnir amdano yn uniongyrchol.

Mae gan y Gymdeithas bolisi o sicrhau cynhwysiant, cydraddoldeb a hygyrchedd i bawb. Mae'n rhaid i bob aelod ac unrhyw weithwyr a gyflogir gan y Gymdeithas lynu at God Ymddygiad y Gymdeithas (gweler yma), a dylid mabwysiadu agwedd wyliadwrus o ymddygiad amhriodol o bob math. Gellir adrodd am ymddygiad o'r fath wrth y Swyddog Lles ac Anabledd (welfare.celtic.students@gmail.com) neu'r Tîm Rheoli (celtic.students.council@gmail.com) – yn benodol wrth y Cadeirydd, yr Ysgrifennydd neu'r Trysorydd – mewn achosion lle gall y Swyddog Lles ac Anabledd fod ynghlwm â'r gŵyn. Dylid gwneud hyn mewn ffordd sensitif, drylwyr a pharchus. Gall unrhyw un a geir yn euog o dorri'r Cod Ymddygiad gael ei ddiarddel o'r Gymdeithas, yn dibynnu ar ganlyniad ymchwiliad gan y Swyddog Lles ac Anabledd. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn y Cod Ymddygiad.

Crynodeb o'r Swyddi ar Bwyllgor y Gymdeithas

- Mae’r Cadeirydd yn gyfrifol am gydlynu a goruchwylio gwethgareddau beunyddiol y Gymdeithas. Mae’n galw ac yn arwain y rhan fwyaf o gyfarfodydd ac yn cadeirio’r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
- Yr Ysgrifennydd sy’n trefnu cyfarfodydd Y Tîm Rheoli a’r Pwyllgor, yn cadw cofnodion ac yna’n eu dosbarthu. Mae hefyd yn cynorthwyo â threfnu digwyddiadau cymdeithasol ar y we, ac yn cadw trefn ar holl gofnodion y Gymdeithas.
- Y Tîm Cyllid sy’n cyfrifol am gydlynu a goruchwylio materion ariannol y Gymdeithas.
- Cadeirydd Tîm y Gynhadledd sy’n goruchwylio trefniadau Cynhadledd Flynyddol Myfyrwyr Celtaidd.
- Tîm Trafodion sy’n golygu a chyhoeddi trafodion y Gynhadledd.
- Mae Tîm Blog yn cynnal blog ac yn gyfrifol am drefnu un eitem newydd y mis.
- Mae Tîm Podlediad yn cynhyrchu ac yn hyrwyddo podlediad y Gymdeithas.
- Mae’s Swyddogion Iaith yn cyfieithu gohebiaeth y Gymdeithas i’r ieithoedd Celtaidd. Mae’n rhaid i aelodau, ar adeg eu hethol, fod â’r gallu i gyfieithu a chynhyrchu deunydd mewn o leiaf un o’r chwe iaith Geltaidd sy’n goroesi. Ceir rhagor o fanylion am y gallu ieithyddol gofynnol ar gyfer y swydd hon yn y Cod Ymddygiad.
- Gwaith y Swyddogion Lles ac Anabledd yw cefnogi a chynorthwyo aelodau o’r Pwyllgor pan fydd llwyth gwaith yn drwm. Disgwylir iddynt hefyd hysbysu eu holynyddion am y Cod Ymddygiad a’u hyfforddi i’w weithredu. Mewn unrhyw achos lle bydd problem berthynol yn codi gydag aelodau o’r Gymdeithas, dylid codi’r mater yn gyntaf gyda Swyddog Lles ac Anabledd (gweler uchod). Maent hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod digwyddiadau’r Gymdeithas mor hygyrch â phosibl.